# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol*

### 5 Ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol"

(1) Dyma yw gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol–

(a) cynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol yn unol â darpariaethau canlynol y Rhan hon;

(b) darparu ar gyfer unigolyn, yn dilyn asesiad iechyd meddwl sylfaenol, driniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol a ddynodir gan yr asesiad yn driniaeth a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo;

(c) gwneud atgyfeiriadau fel a ddisgrifir yn adran 10, yn dilyn asesiad iechyd meddwl sylfaenol, ynghylch gwasanaethau eraill y gallai eu darparu wella iechyd meddwl yr unigolyn a aseswyd neu atal dirywiad ynddo;

(d) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i ddarparwyr iechyd sylfaenol i fodloni gofynion rhesymol y darparwyr am y cyfryw wybodaeth, cyngor a chymorth arall at ddibenion gwella'r gwasanaethau mewn perthynas ag iechyd meddwl y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu;

(e) darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer cleifion a'u gofalwyr ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael iddynt i fodloni eu gofynion rhesymol am y cyfryw wybodaeth a chyngor.

(2) Yn is-adran (1)(e)–

ystyr "cleifion" ("*patients*") yw unigolion y mae ganddynt, neu y gall fod ganddynt, anhwylder meddwl;

ystyr "gofalwyr" ("*carers*") yw aelodau o deuluoedd cleifion, a ffrindiau cleifion, sy'n ymwneud â'u gofal ac yn achos claf sy'n blentyn mae'n cynnwys rhiant maeth awdurdod lleol y plentyn (o fewn ystyr adran 22C(12) o Ddeddf Plant 1989);

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 5. (See end of Document for details)*

ystyr "gwasanaethau" ("*services*") yw–

(a) gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;

(b) gwasanaethau gofal cymunedol (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);

(c) gwasanaethau a ddarperir o dan Ran III o Ddeddf Plant 1989 (nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd);

(d) gwasanaethau tai neu wasanaethau llesiant; a

(e) addysg neu hyfforddiant a all fod yn llesol i iechyd meddwl claf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 8.5.2012 gan O.S. 2011/3046, **ergl. 4(d)** (ynghyd ag ergl. 5)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 08/05/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 5.